# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

MyDentist, Llandudno / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
Gwefan:**www.agic.org.uk**



ISBN digidol 978-1-78859-388-5



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom............................................................................................ 7

Ansawdd profiad y claf ..........................................................................8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ....................................................12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth...........................................18

4. Beth nesaf?....................................................................................................... 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..................................................... 21

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad..........22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ...........................................................23

Atodiad C – Cynllun gwella.............................................................................24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhawyd arolygiad lle rhoddwyd rhybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar MyDentist yn 3 Rhodfa Deganwy, Llandudno, LL30 2YB, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 8 Awst 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod MyDentist, Llandudno, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a chyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu darparu â digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth a gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth yr oeddent yn eu derbyn
- Gwelsom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei gynnal yn dda, gyda systemau effeithiol ar waith i gefnogi'r gwaith cyffredinol o arwain a rheoli'r practis
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roeddent yn ymroddedig iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da
- Roedd cyfleusterau yn y ddeintyddfa yn cynnwys diogon o offer ac roeddent i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi nodiadau cleifion
- Hunanwerthuso wrth ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth
- Lle bo angen, sicrhau bod staff yn adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae MyDentist, Llandudno, yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Conwy. Mae'r practis yn rhan o Integrated Dental Holdings, a adnabyddir fel 'MyDentist', sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ar draws y DU. Mae MyDentist, Llandudno, yn darparu gwasanaethau deintyddol o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un hylenydd/therapydd, tri derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol NHS and privatecyffredinol.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod MyDentist, Llandudno, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a chyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Roedd yr adborth y gwnaethom ei dderbyn yn cadarnhau bod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniwyd naw holiadur wedi'u cwblhau. Roedd cymysgedd da o holiaduron a dderbyniwyd gan gleifion newydd yn y practis (rheini a oedd wedi bod yn glaf ers llai na dwy flynedd) a chleifion hirdymor y practis (rheini a oedd wedi bod yno ers mwy na dwy flynedd).

Yn gyffredinol, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd un o'r cleifion:

> *"Dw i wedi cael y practis deintyddol hwn yn wych i mi ac i'm teulu"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Mae'n iawn fel y mae ar hyn o bryd"*

> *"Mwy o ddeintyddion fel bod apwyntiadau ar gael yn gynt"*

> *"Gallu siarad â'r staff yn Llandudno pan fyddwn yn ffonio yn hytrach na'r switsfwrdd yn Lloegr"*

### Cadw'n iach

Roedd llawer o wybodaeth hybu iechyd deintyddol benodol ar gael, a oedd yn golygu bod gan y cleifion fynediad at wybodaeth a fyddai'n gallu eu cefnogi wrth iddynt ofalu am hylendid eu ceg. Roedd amrywiaeth o bosteri a ffurflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth am y

practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion “dim ysmygu” yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn yr ystafell aros / y dderbynfa.

Dywedodd pawb ond un a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi esbonio iddynt sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd y cleifion i gyd a gwblhaodd holiadur yn teimlo'u bod wedi cael eu trin â pharch pan oeddent yn ymweld â'r practis.

Gwnaethom hefyd arsylwi ar yr agwedd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol a oedd gan y staff tuag at y cleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i warchod preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardaloedd i gleifion gael sgyrsiau preifat gyda'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn mewn preifatrwydd ac i ffwrdd o'r cleifion.

Gwelsom fod y drysau a oedd yn arwain at yr ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd y cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Teimlodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ynghylch eu triniaeth, a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir ynghylch yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Er i'r rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost triniaeth bob tro'n cael ei gwneud yn glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd tua hanner y cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth ynghylch y prisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan y cleifion fynediad at wybodaeth ynghylch cost bosibl eu triniaeth.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau wedi'u nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arni. Roedd hyn yn golygu fod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan ac roedd yn cael ei harddangos ledled y dderbynfa a'r ystafell aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth i gleifion ei hun i gleifion fynd â nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried ei fod yn siaradwyr Cymraeg felly nid oedd yn bosib darganfod pa mor aml yr oedd cleifion wedi gallu siarad â staff yn Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion yn yr holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn yr iaith o'u dewis nhw, ond dywedodd un o'r cleifion mai ond weithiau yr oedd hyn yn bosibl.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob tro'n cael ei ddarparu mewn modd amserol a gwnaethom arsylwi ar hyn yn ystod ein harolygiad. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses o hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd pedwar o'r naw claf a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif argyfwng y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ar frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y rhif ffôn cyswllt yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa, yn cael ei ddarparu yn y neges ffôn, ac yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod pob opsiwn triniaeth yn cael ei gofnodi a bod caniatâd i driniaeth yn cael ei roi gan bob claf.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn unrhyw benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ynghylch eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau yn cael eu trafod â'r cleifion.

Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl pob ymweliad. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn eu holi ynghylch eu hanes meddygol cyn bwrw ati ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi fod gan y practis bolisi cydraddoldeb penodol ar waith.

Roedd gan y practis gyfleusterau parcio helaeth i gleifion a staff, gyda maes parcio neilltuedig ar gyfer pobl anabl. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lefel llawr gwaelod y practis ac roeddent yn gallu cael mynediad at y dderbynfa, yr ystafell aros, y cyfleusterau toiled a thair ystafell driniaeth ddeintyddol.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd pump allan o'r naw claf a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i godi pryder neu wneud cwyn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaeth breifat a thriniaeth y GIG.  Roedd y weithdrefn ar gyfer cleifion ynghylch sut i wneud cwyn yn cael ei harddangos yn glir yn yr ystafell aros ac yn cael ei chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu gofyn am eu safbwyntiau ar y practis deintyddol – er enghraifft, drwy holiaduron i'r cleifion.

Gwnaethom drafod dull y practis er mwyn cael adborth gan gleifion, y mae'r practis yn ei wneud trwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Dywedodd y practis wrthym hefyd fod cleifion yn derbyn neges destun ar ôl pob apwyntiad sy'n eu galluogi i roi adborth.  Mae manylion y gwaith dadansoddi ar yr adborth yn cael eu cyhoeddi ar wefan y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal gyda'r nod o gyrraedd y safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu darparu â gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i warchod diogelwch a llesiant y staff a oedd yn gweithio yn y practis a'r bobl a oedd yn ei fynychu.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn fewnol ac yn allanol. Yn ystod ein taith o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nid oedd peryglon amlwg yn y golwg.

Ni nodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glanweithdra'r practis deintyddol. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn ei farn ef, yn lân iawn.

Roedd un toiled neillryw ar gyfer cleifion ac un cyfleuster toiled ar gyfer staff. Roedd arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent yn amlwg yn lân iawn.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân ar waith drwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd argyfwng yn amlwg ac roedd y poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi y dylid adnewyddu'r gwaith cynnal a chadw o ran nwy yn fuan. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am hyn, a drefnodd wiriad cynnal a chadw yn syth ar gyfer y diwrnod canlynol. Anfonwyd tystysgrif y gwasanaeth ymlaen at AGIC.

Gwelsom fod y cemegion i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd un ohonynt yn cael ei adael yn yr ardaloedd cyhoeddus. Roedd ffeil yn cynnwys sawl taflen ddata yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac roedd yr asesiadau risg perthnasol ar waith ac roeddent wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod y gwastraff i gyd wedi'i ddidoli mewn bagiau/cynwysyddion penodedig yn unol â'r dull cywir o waredu ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel cyn cael eu casglu.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol, fel yr argymhellwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn ac yn drefnus ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Gwnaeth staff arddangos y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau'n dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio i warchod y cleifon a'r staff. Gwnaethom nodi hefyd bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio yn unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau rhagorol ar waith yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Mae'r practis hefyd yn ymgymryd â senarios argyfwng rheolaidd gyda staff, sy'n arfer da. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn ddiweddar ac roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodol.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle'r oedd yn hawdd cael mynediad atynt mewn argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system

effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys er mwyn sicrhau bod y dyddiad yn iawn arnynt a'u bod yn barod i'w defnyddio.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, dywedodd y practis wrthym fod angen i bum aelod o staff adnewyddu eu hyfforddiant ar ddiogelu. Cawsom ein darbwyllo ar lafar fod trefniadau eisoes ar waith i'r aelodau hynny o staff adnewyddu eu hyfforddiant.

Gwnaethom gadarnhau fod yr holl aelodau staff perthnasol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y practis wrthym fod angen adnewyddu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dau o'r deintyddion ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud. Rhaid i bob deintydd sydd wedi cofrestru gydag AGIC fod â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dilys sydd wedi'i gwblhau o fewn y tair blynedd diwethaf. Roedd gan yr aelodau staff perthnasol eraill wiriad dilys gan y Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Lle bo angen, dylid sicrhau bod staff yn adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dylid anfon manylion y tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u hadnewyddu ar gyfer y ddau ddeintydd ymlaen at AGIC.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a gweld eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi fod yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon ac roeddent yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n iawn. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer y defnydd diogel o offer radiograffig (pelydr-X). Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrwydd rheolaidd i wirio ansawdd delweddau pelydr-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg fod y practis yn edrych i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, fel rhagnodi, canser y geg ac atgyfeirio.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Hysbyswyd ni gan reolwr y practis fod cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer cynnal adolygiad gan gymheiriaid rhwng staff clinigol, a fydd yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r adolygiadau clinigol i gyd.

Gwnaethom hefyd argymell fod y practis yn defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull hunanwerthuso sy'n caniatáu i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar y ffordd maent yn gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried ansawdd y gofal a ddarperir mewn amrediad o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid hunanwerthuso gan ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi o bob ffeil electronig yn cael ei gadw yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion ei hadolygu. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth bod y practis, ar y cyfan, yn cadw cofnodion clinigol da. Fodd bynnag, roedd angen i rai deintyddion wella eu dull o gadw cofnodion i gynnwys mwy o fanylder – yn benodol, o ran hanes cymdeithasol, sgrinio am ganser, a chyngor i roi'r gorau i ysmygu a roddir i gleifion. Nid oedd caniatâd i dderbyn triniaeth bob tro'n cael ei gofnodi.

Ar gyfer rhai o'r deintyddion, gwelsom hefyd fod diffyg cyfiawnhad yng nghofnodion y cleifion ar gyfer tynnu pelydrau-X radiograffig a chanfuom nad

oedd pelydrau-X bob tro'n cael eu hadrodd a'u graddio. Gwelsom nad oedd rhai cleifion wedi derbyn unrhyw radiograff cyn cael triniaeth.

Gwnaethom hefyd ddarganfod bod nifer o gleifion oedd yn cael eu gweld gan un deintydd yn cael radiograffau wrth ddefnyddio'r peiriant OPG[1] heb i'r cyfiawnhad gael ei nodi'n llawn.

O ystyried yr amrywiant a welsom yng nghofnodion y cleifion, byddai'n fuddiol i'r practis gyflwyno dull adolygu gan gymheiriaid i'w helpu i ffurfio rhai safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer cadw cofnodion, gan gynnwys radiograffau, fel bod yr ansawdd yn gyson.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid datblygu safonau unffurf a chyson ledled y practis ar gyfer cadw cofnodion cleifion a chyflwyno dull adolygu gan gymheiriaid i gynorthwyo wrth greu a chynnal hyn.

[1] Pelydr-X â golygfa banoramig neu lydan o ran waelod yr wyneb yw OPG, sy'n arddangos holl ddannedd yr ên uchaf a'r ên isaf ar un ffilm. Mae'n dangos rhif, lleoliad a thyfiant pob dant, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi ymddangos neu dorri trwodd eto.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cael ei gynnal yn dda a'i fod yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel sy'n rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd tîm y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithlon ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cydweithio ers nifer o flynyddoedd, roedd cysylltiadau da rhyngddynt. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ac roeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn eglur ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Gwelsom ffolderi cynefino wedi'u cwblhau ar gyfer y staff ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan bob aelod o staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC yn cael eu harddangos yn glir, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd tair tystysgrif yn cynnwys y manylion anghywir ar gyfer AGIC. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r tîm cofrestru yn AGIC er mwyn disodli'r tystysgrifau hyn.

Gwelsom gofnodion mewn perthynas â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio yn y practis. Nid oedd statws imiwneiddio tri aelod o staff ar gael oherwydd cyfyngiadau cyfredol ar y cyflenwad brechlyn, sy'n effeithio'r Deyrnas Unedig. Mae'n debygol y bydd cyfyngiadau ar y cyflenwad yn parhau hyd at ddechrau 2018. Hyd nes bod y tri aelod o staff wedi'u himiwneiddio'n llawn, gwelsom fod rheolwr y practis wedi cwblhau asesiadau risg unigol a bod y tîm iechyd galwedigaethol wedi'i hysbysu.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arferion go iawn. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu'n cael ei reoli fesul fersiwn ac roedd pob un yn cynnwys llofnodion staff i ddangos ei fod wedi cael ei ddarllen a'i ddeall.

Gwelsom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt mewn argyfwng ac amserau agor yn y fynedfa. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol <http://hiw.org.uk/about/whatwedo/inspect/dental/?lang=en> a'r GIG <http://hiw.org.uk/docs/hiw/guidance/170328inspectnhsen.pdf> ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: MyDentist, Llandudno

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: MyDentist, Llandudno

### Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Lle bo angen, dylid sicrhau bod staff yn adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | | | |
| Dylid anfon manylion y tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u hadnewyddu ar gyfer y ddau ddeintydd ymlaen at AGIC. | | | | |
| Dylid hunanwerthuso gan ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ac arloesi | | | |
| Dylid datblygu safonau unffurf a chyson ledled y practis ar gyfer cadw cofnodion cleifion a chyflwyno dull adolygu gan gymheiriaid i gynorthwyo wrth greu a chynnal hyn. | 3.5 Cadw cofnodion | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad: